HANES FERR
O
Gynnedfau Meddyginiaethawl
Dyfroedd Llangybi;
A elwir yn gyffredin
FFYNNON GYBI,
YN AGOS I
Bwllheli, yn Sir *Gaernarfon*;
ODDIWRTH
Amryw BROFIADAU
A wnaethpwyd o honynt yn y Flwyddyn 1766.

Gan DIEDERICK WESSELL LINDEN, *M.D.*

YNGHYD A

Byrr Gofreſtr o'r CLEFYDAU a iachawyd yno.

CAERFYRDDIN,
Argraphwyd gan I. Ross, yn *Heol-Awſt.* 1771.
[Pris Chwe'cheiniog.]

CYNNEDDFAU MEDDYGINIAETHOL

Ffynnon Llangybi,

YN AGOS I

Bwllheli, yn Sir *Gaernarfon.*

YR wyf fi yn tybied mai Rhinwedd yr Halen, a'r ddaear * Alkaliaidd yw'r achos fod cynifer o ddoluriau'r llygaid wedi cael eu hiachau ynddi, a'r yſprydoedd (ſef dwfr a gymmer dân) yn dyfod o'r mwyn ſydd yn gwneuthur lles i'r rhai a ymdrochant ynddi, o herwydd eu bod yn gyrru elfen y dwfr trwy'r *pores* (neu chwys-dyllau y croen) yr hon ſydd yn meddalhau ac yn ſymmud y cyfryw rwyſtrau ag a gyfarfyddo â hwynt, ac o hyn y digwydd

* Alcali y geilw Phyſygwyr bob math ar beth ar a frydio ac a weithio, pan gymmyſger â dim o nattur ſûr, ſef mwyn haiarn neu bres.

wydd fod effeithiau tra buan yn cael yn aml eu teimlo oddiwrth arferu â'r dwfr hwn.

Gan fod y dwfr hwn wedi ei gynnyſgaeddu mor helaeth â'r yſprydoedd hyn ſydd yn dyfod o'r mwyn, y mae ymdrochi ynddo yn lleſiol i bob math ar ddoluriau ſydd yn torri allan yn benddynod mawr, megis dolur y brenhin, defaden wyllt, crach drwg, a'r echrys-haint, ac ym mhob torriad allan yn y croen, megis yr ymgrafu, gwahanglwyf, a'r yſcyrfi: ond yn yr holl ddoluriau hyn, ſe ddylai 'r claf yſted y dwfr cyſtal ag ymdrochi ynddo.--Y ffordd i'r pwrpas yma a fyddai cymmeryd yn y borau un dram *(h. y.* hanner cwarter wns) o halen glauber yn nwfr Llangybi; neu yn yr halen glauber cymmyſgu hanner pint o heli'r môr ag ef, ac ymdrochi yr un diwrnod yn y prydnhawn, a myned yn union o'r dwfr i'r gwely; neu gymmeryd bob yn ail diwrnod y

boreu

boreu a phrydnhawn bint o'r dwfr gyd â dram *(h. y.* hanner cwarter wns) o halen glauber, neu hanner pint o heli 'r môr ynddo bob tro, heb ymdrochi ar y diwrnod hwnnw, ac yno ymdrochi bob yn ail diwrnod, heb gymmeryd y dwfr a'r halen ar yr un diwrnod.

Yn y parlys, cryd cymmalau, cylymmau gwythi yr ydwyf yn meddwl fod y dwfr hwn yn bur wafanaethgar i ymdrochi ynddo yn oer yn unig; ond nid i'w yfed mewn modd yn y byd yn y clefydau hyn.---Yn y doluriau hyn mi a gynghorwn fel y canlyn:

Ffordd i YMDROCHI.

Glanhaed y claf, cyn dechreu ar ei gwrs o ymdrochi ei gorph, â dau neu dri dôs *(h. y.* cymmaint o phyfygwriaeth ag a gymmerir ar unwaith) o ryw phyfygwriaeth ag a weithio trwy ftol, a gyttuno ag ef yn oreu.

Ac

Ac os bydd yn llawn o waed, ac yn gallu dioddef gollwng gwaed, yna gwaeder ef ddau ddydd cyn iddo ddechreu ymdrochi, yna ymdroched un waith neu ddwy beunydd, a chyn gynted ag y delo allan o'r dwfr aed i'w wely, a chymmered ryw feddyginiaeth a gyfnewidio dymmer ei gorph ef o feſur ychydig, megis ychydig o'r barc wedi bod yngwlych mewn dwfr gyd â ffa'r corſydd, gwraidd y tafol a'r dail meinion hirion wedi berwi gydâ phethau alkaliaidd, wedi eu mwydo mewn dyfroedd yſprydol yn gynnes, a bod yn ofalus bob amſer fod y corph yn cael ei gadw yn agored ag *Eſſentia Antimonii*, neu win *Antimoni :* ond deliwch ſulw, os bydd dim yn torri allan o'r croen wrth ymdrochi, neu y cyfryw ag a fwrir allan gan y dwfr, yno ni ddylid rhoddi dim phyſygwriaeth i agoryd y corph, na gwaedu ychwaith er eu bod yn brydio ac yn gwreſogi,

ond

ond yn y cyflwr hwn gan mai ymdrech nattur yw, rhaid parhau i ymdrochi, ac ar ol ymdrochi bob tro, rhaid rhoi meddyginiaethau cynnes i gyfnewid tymmer y corph o feſur ychydig, heb waghau y corph drwy phyſygwriaeth na gwaedu.

Yn y RICKETS.

(Dolur ar blant oddiwrth gyfraniad anwaſtad o'r maeth i'r aelodau yr hyn ſydd yn gwneuthur y cymmalau yn gylymmog, a'r coeſau, &c. yn geimion) y mae ymdrochi mewn dwfr oer yn feddyginiaeth wedi ei ſefydlu trwy ymarfer hir a llwyddiannus.---Ond yr wyf fi yn tybio y bydd dwfr Llangybi yma, yn y doluriau hyn, yn fwy effeithiol nâ dwfr oer cyffredin, o blegid o achos yſprydoedd y mwyn efe a weithreda yn gynt, ac am yr achoſion hyn, nyni a allwn ddiſgwyl y gwna'r dwfr hwn les mawr i aelodau gweiniaid ar ol torriad aſgwrn,

neu

neu lle y bo gwendid oddiwrth laccad neu feddalhad y cnawd, naill ai yn gyffredinol neu mewn rhan, fel y bo yn bygwth y clefyd o ddarfodedigaeth neu *gonſumſiwn*, i'r cyfryw, meddaf, y mae ymdrochi yn y dwfr hwn i'w gynghori os ydyw'r clefyd heb fyned cyn belled a'u bod yn chwyſu: deliwch ſulw, ni ddylai y cleifion hyn gymmeryd dim phyſygwriaeth pan font yn ymdrochi.

Gan fod y dwfr hwn yn bur gyffelyb ei nattur i ddwfr Holt yng ngwlad yr haf, lle'r iachawyd llawer o'r cancer (neu chwydd gwenwynig neu ddolur anhawdd ei ſymmud) yn aml ym mronnau, wynebau, *&c.* a chan fod mwy o yſprydoedd y mwyn yn nwfr Llangybi, nag yn nyfroedd hynod
yn ſir y rhai fel y dywedant a iachant lawer o ddoluriau o nattur cancer, am hynny mi gynghorwn y rhai greſynus hynny y rhai ſydd dan y cyfryw ddoluriau

luriau i dreio dwfr Llangybi trwy ei yfed ac ymdrochi ynddo yn helaeth, a hyn a fedraf ſicrhau iddynt, oni chânt beth eſmwythdra na fyddant ddim gwaeth er ei dreio, o blegid yr wyf yn gwbl ſicr, na wna arferu 'r dwfr hwn yn helaeth trwy ei yfed ac ymdrochi ynddo, ddim math ar niwaid i'r rhai a drallodir gan gancer.

Hyfforddiadau i'w dilyn wrth arfer DYFROEDD LLANGYBI.

I. *Hyfforddiadau i'w dilyn mewn Doluriau Llygaid.*

Ym mhob math o ddoluriau llygaid, y mae gwaghau 'r corph yn angenrheidiol, am hynny cyn gynted ag y del y clwyfus i Langybi gollynged waed, a thros chwech neu ſaith diwrnod yfed y boreuau yn foreu iawn, a'r nos wrth fyned i'r gwely, y dwfr hwn a dwfr y môr wedi eu cymmyſgu, yr un faint o bob un, gymmaint ag a baro iddo

bwrgio ddwy waith mewn pedair awr ar hugain. Y mae'n rhaid gwaedu a phwrgio yn yr achoſion hyn yn gymhedrol iawn: Yr amſer y bydd-ir yn cymmeryd y dwſr i bwrgio, golcher y llygaid o'r lleiaf unwaith bob awr, a phan ddarfyddo'r dydd-iau i waghau'r corph, yna ymdroch-ed y claf unwaith yn y dydd yn nwfr y ffynnon, gan bob amſer drochi ei ben dan y dwfr mor fynych ag y bo poſibl er mwyn golchi ei lygaid yn y dwfr, a chadwed frattiau wedi eu gwlychu yn y dwfr yn waſtadol ar y llygaid, ac os, wrth ymdrochi a golchi'r llygaid, y digwydd i'r corph fyned yn rhwym, yna ychydig o ddwfr y ffynnon a dwfr y môr wedi eu cymmyſgu a ddylid ei gymmeryd (yn fore iawn) ar ben bore, a'r nos wrth fyned i'r gwely.

II. *Ynghlwy'r Brenhin, neu yn achoſion manwynion, neu dorriad allan llinorog.*

Yn yr afiechyd hwn ni allaf ddim annog

annog ollwng gwaed bob amſer, fel yn noluriau 'r llygaid o'r blaen ; o blegid fod yn y cleifion yma yn fwyaf cyffredinol y gwaed yn rhy deneu, ac yn rhy gyflym yn ei gylchdroad ; er hynny os ceir neu os gwelir fod llawnder gwaed, yna nid ellir er dim adael heibio waedu, ond fe ddylid ei wneud fel yn y cyfarwyddiad cyntaf, cyn i'r claf ddechreu arfer y dyfroedd.

Gwaedu neu beidio a gwaedu os clwyf y brenhin a fydd y peth, rhaid i'r claf yfed y bore a'r nos ychydig o ddwfr y ffynnon a dwfr y môr wedi eu cymmyſgu er mwyn cadw'r corph yn rhydd ; a'i ddiod gyffredin ef a ddylai fod o ddwfr y ffynnon a llaeth wedi eu cymmyſgu, neu ddwfr y ffynnon ag ychydig bach o Frandi ; ac yn ol nerth y claf, fe ddylai ymdrochi unwaith neu ddwywaith yn y dydd, a myned i'r gwely dros ychydig wedi ymdrochi, a chadw brattiau gwlybion yn waſtadol ar y crammennau.

III. *Af-*

III. *Afiechyd yn y croen, Ymgrafu, Gwahanglwyf, a'r Scyrfi.*

Yr un rheolau ag a roddais i lawr yn y flaenorol reol rhag clwyf y brenhin a ddylid cyn neſed ag y b'o boſibl eu dilyn yn yr achoſion hyn; ac os digwydd i gleifion o'r fath hyn gael eu blino gan ddwfr poeth neu ſur yn y cylla, yna cymmerant 30 diferyn o *Oil y Tartar per deliquium*, mewn cwart o ddwfr *Llangybi*, neu os na allant gael y peth hyn, lloſgant Fanadl, a gwnant leiſw cryf o'r lludw, a phan y gloywo, cymmerant ddwy neu dair llwyaid o hono yn y dydd, mewn cwart o'r dwfr.

IV. *Crach drwg, neu Bennau cennog.*

Mi roddais i lawr gyfarwyddyd yn eſampl, II. o'r bennod hon; a'r un drefn ag a oſodais i'r gwyr ieuaingc yma, yr wyf yn oſod i bawb, ac a wnant arfer o'r dwfr hwn rhag yr unrhyw achwyniad; fy nghyngor iddynt ydoedd,

ydoedd, yfed pint o ddwfr y ffynnon a'r un faint o ddwfr y môr wedi eu cymmyſgu bob bore a hanner pint o bob un wrth fyned i'r gwely, ymdrochi ddwy neu dair gwaith yn yr un dwfr, ac yn waſtadol, wiſgo am ei ben gap wedi ei wlychu yn y dwfr.

V. *Cryd Cymmalau.*

Os gall y claf hepgor ychydig waed, gwaeder ef ychydig, yna pwrgied dros dri neu bedwar diwrnod â dwfr y ffynnon ac â dwfr y môr, ond os na aller caniattau gwaedu rhaid parhau i gymmeryd y dwfr i bwrgio. Ymdroched un neu ddwy waith yn y dydd yn nwfr y ffynnon, fel y bo ei rym ef yn goddef, a chyn fynyched ag y delo ef o'r dwfr, myned i'r gwely a chymmeryd ynghylch cwarter pint o ddwfr Llangybi, a 40 neu 50 diferyn o *Friars Balſam* yntho, a phan y bo'r corph yn rhwym, cymmelled ei ymryddiadau angenrheidiol

iol â'r un frint o ddwfr y ffynnon a dwfr y môr.

VI. *Yn y Palſi, neu'r Parlys mud.*

Yn y clefyd hwn, mae 'n rhaid gadael heibio waedu'n hollawl; ond mae 'n angenrhaid parottoi'r claf â phwrge eſmwyth, cyn y bo iddo ymarferyd yn gyflawn â dwfr Llangybi; a hyn a wnair oreu trwy gymmeryd dwfr y ffynnon hon a dwfr y môr yn gymmyſgedig, fel y cyfarwyddwyd yn yr hyfforddiadau o'r blaen; deg neu 'chwaneg o ddyddiau ſy'n angenrheidiol i'r parottoad hwn at y dwfr pwrgio cymmyſgedig yma, mae 'n angenrhaid rhoi chydig lwyau tê 'n llawn o *Tincture of Valerian*, neu *Friar's Balſam*, fel bo iddo orwedd yn gynnes ar y cylla; wedi ei barottoi fel hyn, ymdroched yn y ffynnon yn ol ei rym unwaith neu ddwy yn y dydd; aed o'r ffynnon i'r gwely tros 'chydig, a chymmered 'chydig o'r

o'r dwfr, a 40 neu 50 diferyn o *Tincture of Valerian* neu *Friar's Balſam* am ei ben ; a'r nos wrth fyned i'r gwely, cymmered ddwy neu dair llwyaid fawr o ifcell huddigl coed, i wneud yr ifcell yma rhaid cymmeryd dwy wns o huddigl wedi ei wneud yn llwch, a thri phint o ddwfr Llangybi.

VII. *Yn y Cwlwm Gwithi*, a phob math arall o afiechyd gewynnau, yr un drefn fydd i'w chymmeryd ag a oſodwyd o'r blaen yn y *Palſi*.

VIII. *Yn y Cancer neu 'r Crangc.*

Y ffordd yr wyf ar fedr gymmeryd, pa bryd bynnag y bo gennyf un claf o'r clefyd hwn yw hon, rhaid i'w gwaedu neu beidio gwaedu yn ol fel b'o nattur corph y claf, ac os na all hepgor gwaed, ni ddylid ei gynnyg, ond mi a gyfarwyddaf barottoi 'r corph, o'r lleiaf, tros ddeg neu ddeu-

ddeuddeg diwrnod, a dwfr y môr a dwfr Llangybi, ac ymdrochi ddwy-waith yn y dydd ; ac yfed y dyfroedd wedi eu cymmyſgu ag ychydig o ddwfr calch wedi ei felyſu, ddwy waith yn y dydd, megis phyſygwriaeth, megis i weithio cyfnewid yn ordymmyr y corph, glanhau 'r clwyf yn fynych â dwfr Llangybi ; a'i drwſio â dwy wns o waelodion dwfr calch, un wns o fêl a hanner wns o *Oleum Animalis Empnumatici* ; ac yma y terfynaf y matter hwn am ddyfroedd Llangybi.

D. W. LINDEN.

PETH

PETH HANES O'R Dynion a gawsant LESHAD, A RHAI EU HIACHAU yn HOLLAWL, WRTH ARFERU DWFR LLANGYBI, yn Sir GAERNARFON.

1. MR. *John Jones* o *Fron y Gadair*, o fewn i'r chwe blynedd ar hugain hyn, a gollodd ei olwg gan y frech wen, ond a iachawyd â dwfr *Llangybi*.

2. *Gwraig* o *Dre-faes*, *ym Molldeyrn*, a gollodd ei golwg gan y frech wen, ac a iachawyd gan ddyfroedd *Llangybi*.

3. *Gwraig* o *Bwllheli*, a berffaith adferwyd i weled wedi colli o honi ei llygaid gan y Frech wen. Ac hefyd

4. Mr. *Hugh Jones*, o *Dan y Graig*, a iachawyd o'r un clwyf oddiwrth yr un achos.

5. *Mab i Richard Jones*, o *Gariog yn Llyn*, (wedi i'w lygaid fyned ar ol y frech wen i gyflwr gwael iawn) a iachawyd â dwfr *Llangybi*, yn y flwyddyn 1763.

6. *Ann Sion*, yn ddall ac yn gloff ar ol y frech goch, a iachawyd o bob un â dwfr *Llangybi*.

7. Mr. *Wiliam Prichard*, o'r *Bryn bychan*, wedi profi llawer meddyginiaeth, ond yn aneffeithiol, a iachawyd o'r dallineb yn y flwyddyn 1764, gan y dwfr hwn.

8. *Elis Richard*, o Sir *Fon*, yr hwn oedd yn gweled yn ddwl iawn ag un llygad am fod ſpottun coch arno, a iachawyd yn hollawl â dwfr *Llangybi*, ac y mae yn dyfod yn flynyddol o'i wir ſerch i'r ffynnon.

9. *John Rhydderch*, wedi colli ei olwg er's deng mlynedd ar hugain, a ddaeth er's pedair blynedd yno, ac wrth olchi ei lygaid yn unig dros ynghylch tair wythnos, ſe iachawyd yn hollawl, ac y mae 'n parhau yn iach o hyd.

10. *Gwr ieuangc* o *Gaer-gybi*, a gollodd ei olwg ar y môr, hyd onid oedd yn gwbl ddall, trwy arfer dyfroedd *Llangybi* ſe a wellhaodd yn y fath fodd, ag y gallai ef mewn

mewn ychydig ddyddiau, weled prennau; ond eiſiau cynhaliaeth, ni allai ef aros yn hwy yn y Ffynnon.

11. *Mab* i Mr. *Efan Griffiths*, o *Griceth*, yn nechreu 'r Flwyddyn 1758, yn bum mlwydd oed, a gafodd y frech wen, yr hon a adawodd un o'i lygaid yn wael iawn ei ſut, o herwydd pa ham efe a'i hanfonodd i ffynnon *Gybi*, lle'r iachawyd ef yn hollawl, ac y mae i wybodaeth Mr. *Efan Griffith*, ynghylch deuddeg neu fwy, wedi cael yr un tymmor, wellhad o ddoluriau llygaid ar ol y frech-wen, wrth arfer y dwfr yma.

12. *Elizabeth Richard*, o *Bentraeth* ym *Mon*, o fewn y pedair blynedd hyn a ddaeth i *Langybi*, yn gwbl ddall o'i dau lygad, ac a iachawd yn hollawl gan y dwfr yma.

Rhag

Rhag DEFAID gwylltion,

Y mae Dwfr LLANGYBI gan Bobl gyffredin y Gymmydogaeth honno, yn cael ei gyfrif yn Feddyginiaeth ddiball; ac fe a ddeallwyd fod y dynion canlynol yn ſicr wedi cael eu hiachau o Ddefaid gwylltion gan y Dwfr hwn.

1. GWRAIG o Sir *Fôn* a iachawyd yn holiawl o Ddafad wyllt fawr iawn oedd yn ei chluſt gan ddwfr *Llangybi*, ac y mae hi'n dyfod bob blwyddyn i'r ffynnon, ac yn arfer y dwfr rhag iddi ail-glwyfo.

2. *John Jones* yn *Llyn* a iachawyd gan y dwfr hwn o ddafaden wyllt yſtyſnig ar ei wefus.

3. *John Hughes*, Gof o *Lyn*, yn y flwyddyn 1763, a iachawyd gan Ddwfr *Llangybi*, o Ddafaden wyllt y tu fewn i'w ſafn. Hefyd

4. Hen Wraig o *Bewmaris*, o'r un peth. Ac

5. *John*

5. *John Rowland* o'r *Morfa*, yr hwn fy'n dyfod bob blwyddyn i ffynnon *Gybi*, rhag iddi ail ddyfod.

6. *Morris Cadwaladr*, trwy gymmorth y Dwfr hwn a iachawyd o Ddafaden wyllt, neu chwydd ar goryn ei ben o gyfled a llaw, yr hon a waedai bob tro y trochai ef hi â'r Dwfr hwn, ond ni waedai ddim pan y trochai ef hi â Dwfr cyffredin.

7. *Griffith Marc*, o *Langybi*, ynghylch deg ar hugain oed, a flinwyd gan Ddafaden wyllt ar gig ei Ddannedd, at wellhau pa un efe a arferodd lawer o feddyginiaethau a bennodwyd iddo gan y cyfarwydd, ond heb ddim llesâd, a'r Ddafaden yn myned fwyfwy bob dydd; yn y cyflwr hwn efe a arferodd Ddwfr *Llangybi*, a thrwy hwn efe a iachawyd yn hollawl, ac y mae'n iach hyd yma, ac y mae er hynny ynghylch pedair blynedd.

8. *Humphrey Roberts*, a iachawyd o Ddafaden wyllt gan y Dwfr hwn. Ac hefyd

9. *Tri* o *Blant* i *Griffith Humphreys*, o *Langybi*. A

10 *Plentyn* i *Dafydd Elis* o'r *Orsedd*.

Y mae

Y mae gair da i Ddwfr LLANGYBI am iachau'r Cryd Cymmalau trwy ymdrochi ynddo; ac ni a allwn hyderu ar hyn fel Gwirionedd ſicr, fod y rhai hyn a grybwyllir yn neſaf wedi eu hollawl iachau o'r Cryd Cymmalau wrth ymdrochi yn y dwfr hwn.

1. THomas Jones o *Caran gwynnion*, yn agos i *Gaernarfon*.

2. *Merch* i *Richard Morris*, o *Dyddyn y Morthwyl*, ym mhlwyf *Llanyſtymdwy*.

3. *Martha*, gwraig *Richard John Davis*, o *Langybi*, yr hon oedd yn gwbl analluog gan y cryd cymmalau.

4. *Robert Sion Dafis*, o *Langybi*, yng-hylch trugain oed a ddalwyd ar hin rewlyd o fewn y chwe blynedd yma gan boen dir-fawr yn ei glyn, yr hwn a barhaodd arno tros fwy nâ naw mis, ym mha amſer yr ymarferodd ef â llawer o feddyginiaethau, ond

ond oll heb ddim lles, ac ni ellid cael ganddo ar un cyfrif ymarfer â'r Dwfr hwn, er ei annog gan lawer; pa fodd bynnag, fe ddigwyddodd iddo trwy ryw ddamwain fyrthio i'r ffynnon hon, a gwlychu ei ddillad yn wlyb iawn, ac aros yn ei ddillad gwlybion, a chyfgu ynddynt, yr hyn a fymmudodd y poen, ac a roddodd iddo gymmaint efmwythdra ag a'i hannogodd i ymdrochi yn rheolaidd, ac ym mhen ychydig o droion efe a iachawyd yn hollol.

DIWEDD.

DIWEDD.

SHELF MARK
60.a.19

The Eighteenth Century

Author: Wright, Thomas.

Title: The use of the globes: or, the general doctrine of the sphere: ... To which is added, a synopsis of the doctrine of eclipses. ... By Thomas Wright, ...

Imprint: London, 1740.
Collation: iv,162,[2]p.,plates 8*
Notes: Titlepage in red and black. - The 'Synopsis', pp.103-60, has a divisional title. - The 2 final leaves contain a 'Postscript', 'Errata' and advertisements. - The frontispiece contains an advertisement for 'Globes made and sold by Iohn Senex'.

RCN: t109383

OUT TO RP: (RP)
IN TO BL: (BL)
REJECTED:

RP Reel No: 10261
RP Reel Location No:
RP ID No: **07M080256-001**

7

☐ Tight Bindings ☐ Fine Bindings ☐ Fragile Book ☐ BL Archival Film

☐ RP Filming ☐ BL Filming ☐ Via Bind to RP ☐ Via Bind to BL

FILMING COPY

RESEARCH PUBLICATION INTERNATIONAL